| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Cyd-Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd** |
| DYDDIAD: | **24 Tachwedd 2023** |
| PWNC: | Is **Bwyllgor Safonau – Penodi Aelodau** |
| AWDUR: | **Iwan Evans Swyddog Monitro** |

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

1. **Mabwysiadu addasiadau i Gylch Gorchwyl yr Is Bwyllgor Safonau Atodiad 1**

2. **Mabwysiadu y meini prawf ar gyfer penodi aelodau annibynnol i'r Pwyllgor Safonau a Sefydlu Panel Cyfweld yn unol ac Atodiad 2**

3. **Dirprwyo trefnu y broses penodi i'r Swyddog Monitro.**

---

## 1. RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

Mae newidiadau deddfwriaethol yn golygu fod trefniadau ar gyfer sefydlu Is Bwyllgor Safonau a fabwysiadwyd ym Mai eleni angen eu hadolygu.

## 2. CEFNDIR

Mae addasiadau i'r Rheoliadau Pwyllgorau Safonau ( Cymru) 2001 wedi dod i rym sydd yn gosod gofynion statudol ar sefydlu Pwyllgorau Safonau y CBC. Er fod crynswth y Cylch Gorchwyl yn parhau yn berthnasol mae rhai newidiadau nad oedd wedi eu rhagweld ac yn gwyro oddi wrth yr opsiynau a gafwyd yn yr Arweiniad Statudol sef:

- "defnyddio pwyllgor safonau presennol un o'i gynghorau cyfansoddol
- sefydlu ei is-bwyllgor safonau ei hun, y gellid ei boblogi yn unol ag egwyddorion Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 ond gan aelodau pwyllgorau safonau'r cynghorau cyfansoddol
- sefydlu is-bwyllgor safonau yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001"

Yn ôl y rheoliadau sydd wedi eu cyhoeddi yn Hydref eleni mae'n ofynnol i seddi annibynnol gael eu llenwi drwy broses hysbysebu a chyfweld yn yr un modd a Pwyllgorau Safonau y Cynghorau ac Awdurdod y Parc. Mae angen hefyd penodi panel cyfweld a meini prawf ar gyfer penodi.

Mae'r addasiadau sydd angen eu cynnwys yn y Cylch Gorchwyl wedi eu nodi yn Atodiad 1 ac mae'r trefniadau penodi yn Atodiad 2. Byddaf yn gweithio gyda Swyddogion Monitro y rhanbarth i hwyluso y broses.

**SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro**

Awdur yr Adroddiad

**Y Pennaeth Cyllid**

"Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Atodiadau**

1. Cylch Gorchwyl Is Bwyllgor Safonau
2. Trefn Benodi